Taflen Ffeithiau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi sylw i gwynion yn ymwneud ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Dylid ei darllen ochr yn ochr â'n taflen wybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol dros holl ofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn adolygu ac yn arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG ac annibynnol yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol fod y gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd da. Os credwch chi nad yw AGIC wedi dilyn y gyfraith, rheoliadau neu ganllawiau, mae'n bosib y bydd yr Ombwdsmon yn gallu eich helpu gyda'ch cwyn.

Dyma brif gyfrifoldebau AGIC:

- cynnal arolygiadau, adolygiadau ac ymchwiliadau i wasanaethau gofal iechyd y GIG;
- cofrestru a rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn cynnwys ymchwilio i bryderon gan aelodau o'r cyhoedd fod darparwr annibynnol wedi torri'r rheoliadau sy'n llywodraethu ar ei weithredoedd;
- cyflawni rôl yr Awdurdod Goruchwylio Lleol o ran goruchwyliaeth statudol dros fydwragedd;
- darparu gwasanaeth adolygu ym maes iechyd meddwl, yn cynnwys gweithredu Deddf Iechyd Meddwl 1983 a darparu gwasanaeth Meddyg a Benodir i roi Ail Farn i gleifion sy'n cael eu trin a'u cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl; a
- monitro gweithredu Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gan y GIG.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Gall yr Ombwdsmon:

- edrych ar gwynion am ddiffygion gweithdrefnol a gweinyddol sy'n deillio o arolygiad neu adolygiad AGIC o Wasanaeth a Reoleiddir (yn cynnwys gweithredoedd sy'n gysylltiedig â chwyn neu bryder);
- edrych ar gwynion am ddiffygion gweithdrefnol a gweinyddol sy'n deillio o arolygiad neu adolygiad gan AGIC o wasanaethau'r GIG;
- edrych ar gwynion am ddiffygion gweithdrefnol a gweinyddol sy'n deillio o rôl AGIC fel yr Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer goruchwyliaeth statudol dros fydwragedd;
- edrych ar gwynion lle nad yw AGIC wedi cyflwyno ymateb;
- ystyried cwynion am broses adrodd AGIC;
- edrych ar gwynion ynghylch trefniadau gweinyddu gwael gan AGIC.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni all yr Ombwdsmon:

- ystyried unrhyw faterion yn ymwneud ag atal o'r gwaith, disgyblu neu faterion personél yn ymwneud â swyddogion AGIC neu'r swyddogion hynny o'r gwasanaethau y mae AGIC yn ymchwilio iddynt;

- ystyried camau a gymerwyd gan AGIC mewn cysylltiad â mater sy'n cael ei ystyried gan y llysoedd neu sydd wedi cael ei ystyried ganddynt;

- codi cwestiynau am benderfyniad priodol y mae gan AGIC hawl i'w wneud.

Materion i gadw mewn cof

Nid yw swyddogaeth AGIC yn cynnwys delio â chwynion gan gleifion am y driniaeth a gawsant gan y GIG. Gellir delio â materion o'r fath dan drefn gwyno'r GIG. Fodd bynnag, bydd AGIC yn ymateb i unrhyw wybodaeth a allai awgrymu methiannau systematig yng ngwasanaethau'r GIG. Yn yr un modd, nid swyddogaeth AGIC yw delio â chwynion gan gleifion am driniaeth a gawsant gan ddarparwyr gofal iechyd annibynnol. Fel arfer, bydd AGIC yn disgwyl bod y darparwr wedi cael cyfle i ymchwilio i'r gŵyn yn y lle cyntaf, oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hyn. Fodd bynnag, bydd AGIC yn ystyried cwynion a phryderon gan gleifion a gweithwyr proffesiynol fod darparwyr annibynnol o bosib wedi torri'r rheoliadau perthnasol.

Lle nad yw darparwyr gwasanaethau neu bobl sydd wedi cofrestru ag AGIC yn fodlon ag unrhyw gamau cofrestru neu orfodi y mae AGIC wedi'u cymryd, dylid delio â'r cwynion hyn drwy'r llwybrau a ddarparwyd yn benodol at y diben hwn.

Gwybodaeth bellach

Ceir gwybodaeth bellach am AGIC, yn cynnwys ei threfn gwyno, ar ei gwefan: http://www.hiw.org.uk

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ac yn ddiduedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i weithredu ei argymhellion – ond yn ymarferol, maent yn gwneud hynny'n ddieithriad bron.

Gellir gweld enghreifftiau o achosion y mae'r Ombwdsmon wedi edrych arnynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombwdsmon-cymru.org.uk.

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ